# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## CYNADLEDDAU

### Gweithdai: Datblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r 5 hyfedredd mathemategol ar gyfer ymarferwyr 3 i 8 oed, gyda Gareth Metcalfe – I See Maths.

**FFOCWS Y GWEITHDY:**

- Datblygu dealltwriaeth gysyniadol o rif drwy amrywiaeth o ddulliau addysgegol
- Creu heriau mathemategol pwrpasol o fewn y ddarpariaeth
- Datblygu gweithdrefnau i ddatblygu rhesymu mathemategol a datrys problemau.
- Bydd gofyn i athrawon ddychwelyd i weithdy hanner diwrnod - Mehefin 2024. Bydd dyddiadau a lleoliadau yn cael eu rhannu yn ystod Gweithdy 1.

| | |
|---|---|
| 11/04/2024 | Canolfan Fusnes Conwy |
| 12/04/2024 | Holiday Inn, A55 [Chester West] |
| 18/04/2024 | Clwb Pêl-droed, Porthmadog |
| 19/04/2024 | Clwb Rygbi, Bethesda |

MANYLION LLAWN A CHOFRESTRU



## CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Yr ydym yn falch iawn o gyflwyno ein Cynnig Dysgu Proffesiynol i chi ar gyfer y flwyddyn addysgol 2023-24. Yma cewch wybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

Cadwch olwg ar dudalen Cynnig Proffesiynol GwE ar ein gwefan. Mae'n cael ei diweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

Bryn Eirias, Ffordd Abergele, Bae Colwyn, LL29 8BY
0300 500 8087
Canolfan Cefnogaeth GwE
@GwEGogleddCymru
post@gwegogledd.cymru
www.gwegogledd.cymru
Cynnig Proffesiynol GwE
GwE Gogledd Cymru

# CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL RHANBARTHOL ANG: TYMOR 2 A 3 [2024]

Gweler isod cynnig dysgu proffesiynol rhanbarth GwE ar gyfer Athrawon Newydd Gymhwyso.
Mae'r manylion llawn ar gael ar wefan GwE. Cliciwch ar y dolenni isod er mwyn cofrestru.

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | Cymhwysedd Digidol | 21/03/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 9 | Digital Competence | 22/03/2024 | Oriel Hotel, Llanelwy | Saesneg |
| 10 | Asesu Ffurfiannol | 16/04/2024 | Plas Menai | Cymraeg |
| 11 | Formative Assessment | 17/04/2024 | Oriel Hotel, Llanelwy | Saesneg |

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

## Recriwtio Aseswyr ar gyfer Statws CALU

**[CYNORTHWYWYR ADDYSGU LEFEL UWCH]**

**Oes gennych chi statws CALU ac yn gweithio mewn ysgol yn rhanbarth GwE?**
Mae GwE yn chwilio am ymarferwyr â statws CALU i ymuno â'r tîm sydd ynghlwm â Rhaglen Asesu Cynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch.
Fel aseswr, byddwch yn gyfrifol am asesu ymgeiswyr sydd wedi cwblhau'r Rhaglen Darpar CALU, ac sydd yn cael eu hasesu ar gyfer statws CALU.
Am fwy o wybodaeth a manylion ymgeisio, cliciwch yma. **DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS: 26/03/2024**

## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, cliciwch yma.

# NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

## Cyfarfodydd Rhwydwaith Llythrennedd a Rhifedd Cynradd

**ARWEINWYR LLYTHRENNEDD A RHIFEDD RHANBARTHOL**

Diben y cyfarfod Rhwydwaith Llythrennedd/Rhifedd hanner diwrnod hwn yw dod ag Arweinwyr Llythrennedd / Rhifedd ynghyd mewn cyfarfod anffurfiol i rannu, trafod ac archwilio'r syniadau diweddaraf ym maes datblygu llythrennedd a rhifedd yn ein hysgolion cynradd.

| | | | |
|---|---|---|---|
| **RHIFEDD** | 18/03/2024 \| 9:00-12:00 | GwE, LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG | COFRESTRU |
| **LLYTHRENNEDD** | 18/03/2024 \| 13:00-15:00 | GwE, LINDEN HOUSE, YR WYDDGRUG | COFRESTRU |
| **RHIFEDD** | 19/03/2024 \| 9:00-12:00 | OpTIC, LLANELWY | COFRESTRU |
| **LLYTHRENNEDD** | 19/03/2024 \| 13:00-15:00 | OpTIC, LLANELWY | COFRESTRU |
| **RHIFEDD** | 21/03/2024 \| 9:00-12:00 | PLAS MENAI, CAERNARFON | COFRESTRU |
| **LLYTHRENNEDD** | 21/03/2024 \| 13:00-15:00 | PLAS MENAI, CAERNARFON | COFRESTRU |

## Rhwydwaith i holl ymarferwyr y Celfyddydau Mynegiannol



**12/03/2024 | 15:30-16:30** YMUNWCH

Sesiwn anffurfiol dros MS Teams i rannu gwybodaeth ac arfer dda. **Cyfrwng Cymraeg**.

## Gŵyl Lythrennedd GwE - Ysgolion Uwchradd

[Gweler yma](#) wybodaeth am ein Gŵyl Lythrennedd ar-lein.

Mae hon i bob aelod staff a bydd recordiad o'r sesiynau ar gael i chi ei rannu, am gyfnod, ar ôl y digwyddiad.

**Bydd y rhain i gyd yn sesiynau cyfrwng Saesneg.**

Cofiwch gysylltu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau. [Y Tîm Saesneg a Llythrennedd](#)

# Y GYMRAEG

## Cewri Cymru

Bydd rhifyn nesaf 'Cewri Cymru' ar thema'r chwe gwlad yn fyw am 9:15, dydd Llun 4 Mawrth, ac yna ar adeg sydd fwyaf cyfleus i chi fel ysgolion. Gweler y dolenni isod ar gyfer y gwahanol fersiynau.

[Fersiwn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg](#) [Fersiwn Ysgolion Cyfrwng Saesneg](#) [Rhestr Chwarae Cewri Cymru- Pob Fideo](#)

Mae 11 fersiwn gwahanol o'r adnoddau yma, gyda rhywbeth i ddysgwyr o'r Meithrin a Derbyn hyd at rai dosbarthiadau CA3.Gweler tudalennau cyfryngau cymdeithasol e-sgol ar gyfer cystadleuaeth ynglŷn â defnydd o'r adnodd.

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** [Pa lefel ydw i?](#)

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. [Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg](#)

**Angen mwy o wybodaeth?** [Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE](#).

## 'Cymraeg mewn Blwyddyn'

**CYRSIAU SABOTHOL IAITH GYMRAEG**

Cafodd y cwrs hwn ei gynllunio ar gyfer athrawon ysgol gynradd sy'n gweithio mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg. Mae'n darparu hyfforddiant dros gyfnod o flwyddyn academaidd gyfan, gan arwain at siaradwyr sy'n mynegi eu hunain yn rhugl ac yn ramadegol gywir yng nghyd-destun dysgu ac addysgu. Ei nod yw datblygu arweinwyr pwnc a fydd yn cynllunio'r defnydd o'r Gymraeg yn eu hysgolion yn unol â gofynion strategol y consortiwm rhanbarthol gan ddefnyddio methodolegau addysgu'r Gymraeg a gydnabyddir yn arferion gorau yn broffesiynol.

Os am gofrestru y dyddiad cau yw **22/03/2024**. Am fwy o fanylion, cysylltwch â'ch awdurdod lleol neu [SgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru](mailto:SgiliauIaithGymraeg@gwegogledd.cymru). [Dolen i'r hysbyseb](#)

## Cwrs Lefel Mynediad i gynorthwywyr dosbarth mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

- Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb
- Canolfan Iaith, Llanelwy
- 3 Mehefin – 5 Gorffennaf



# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

**Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:** CYNRADD | UWCHRADD

# IECHYD A LLES

## Cynnig Proffesiynol Iechyd a Lles GwE

**Gweithdy Iechyd a Lles [8-11]** I ddysgwyr gael ymwneud fwy ag Addysg Gorfforol, Bwyd a Maeth.

Optic, Llanelwy 14/03/2024 8:45-15:15

# NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Cliciwch yma i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sydd yn darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol traws-ranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Grŵp *Facebook* newydd i gefnogi Cynorthwywyr Addysgu

Mae grŵp *Facebook* newydd Consortia Addysg Cymru i gefnogi Cynorthwywyr Addysgu yng Nghymru ar agor! Byddem wrth ein bodd pe baech yn ymuno gyda ni a rhoi gwybod i ni am unrhyw beth yr hoffech ei weld yn y grŵp.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Mae'r pamffled hwn yn cynnwys dyddiadau allweddol, dolenni i'r sesiynau rhithiol a dolenni i'r recordiadau.

| Sesiwn | Amcanion y Sesiwn | Dyddiad |
|---|---|---|
| Yn y wers… Asesu o ddydd i ddydd | Bydd arweinwyr ac athrawon yn meithrin gwybodaeth a dealltwriaeth o:<br>• Cynllunio ar gyfer cynnydd gan ddefnyddio'r egwyddorion cynnydd<br>• Egluro a chyd-adeiladu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant<br>• Monitro cynnydd dysgwyr drwy addysgeg effeithiol | 19/03/2024 |

## Tegwch mewn Addysg - Dysgu Proffesiynol

**ADDYSGU A DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A DAN ANFANTAIS**

Cliciwch ar y ddolen hon i ddarllen mwy am yr adnoddau a sut allwch chi fynd ati i'w defnyddio yn y dosbarth.

## Cyfle ym Maes Cymell a Mentora

Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn datblygu diwylliant o Gymell & Mentora trwy Raglen hyfforddiant genedlaethol ers rhai blynyddoedd bellach.

Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol rithiol hon yn cynnwys 6 sesiwn 3½-awr dros gyfnod o 6 wythnos. Trefnir carfan newydd ar gyfer tymor y Gwanwyn 2024.

Dilynwch y ddolen hon am fwy o wybodaeth a ffurflen gofrestru.

## Cynnig 'Lle i Fyfyrio' i bob Gweithiwr Proffesiynol mewn Addysg

Mae angen ychydig o gymorth llesiant ar bob un ohonom o bryd i'w gilydd, cyfle i stopio, dadlwytho, myfyrio a chnoi cil.

Cliciwch yma i gael rhagor o wybodaeth a chofrestru ar gyfer cynnig cymorth hyfforddiant myfyriol y Consortiwm.

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar Ddysgu 14 i 16 yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi lansio ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar Ddysgu 14 i 16 yn y Cwricwlwm i Gymru. Bydd yr ymgynghoriad ar agor hyd at 8 Mai 2024.


**Datganiad ysgrifenedig**

Datganiad Ysgrifenedig: Dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru – ymgynghoriad ar ganllawiau statudol (28 Chwefror 2024) | LLYW.CYMRU

**Datganiad i'r wasg**

Hoffai Llywodraeth Cymru gael eich barn ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru | LLYW.CYMRU

## Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â'r Daith



Dymunwn dynnu eich sylw at ddiweddariad i ganllaw'r Llywodraeth i ysgolion ar gynllunio, gweithredu ac adolygu eu cwricwlwm sydd bellach ar Hwb:

- Dolen i'r canllawiau : Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â'r daith - Hwb (gov.wales)
- Dolen i fideo yn egluro'r negeseuon allweddol: Repository - Hwb (gov.wales)

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Uwchgynhadledd Addysg y Byd 2024

**CYNNIG ARBENNIG GAN ACADEMI GENEDLAETHOL AR GYFER ARWEINYDDIAETH ADDYSGOL CYMRU**

Mae gan AGAA fargen unigryw ar gyfer tocynnau am ddim i Uwchgynhadledd Addysg y Byd 2024 [18-21 Mawrth]. Mae'r tocynnau hyn ar gael i unrhyw un sy'n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru.

I gofrestru, y cyfan sydd angen i gyfranogwyr ei wneud yw mewngofnodi trwy eu cyfrif Hwb gan ddefnyddio'r ddolen ar y wefan. Mae'n werth i gyfranogwyr gofrestru lle hyd yn oed os na allant fod yn bresennol gan y bydd yr holl gynnwys o'r uwchgynhadledd ar gael hyd at flwyddyn ar ôl y digwyddiad.

Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for Educational Leadership Wales

Uwchgynhadledd Addysg y Byd 2024 - Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru (nael.cymru)

## Sesiynau hyfforddi "Deall mwy am Lled-ddargludyddion: Archwilio'r dechnoleg y tu ôl i electroneg fodern"

**I FYFYRWYR BLYNYDDOEDD 10, 11 A 12**

Bydd y sesiwn gyntaf ym Mhrifysgol Bangor ar 17/04/2024, gyda'r ail wedi'i chadarnhau ym Mhrifysgol Met Caerdydd ar 24/06/2024. [Mwy i ddilyn cyn gynted â phosib!]

Bydd gweithgareddau ymarferol gan ddefnyddio pecyn Grove Arduino, a chyfle hefyd i ddysgwyr brofi bywyd, ac addysgu mewn prifysgol. Cânt siarad â myfyrwyr a staff eraill mewn lleoliad bach ac anffurfiol, y tu allan i ddiwrnod agored arferol.

Gall unrhyw un sydd â diddordeb gofrestru drwy CSA Catapult neu'n uniongyrchol gyda UKESF trwy'r dolenni hyn:

Tanio eu dychymyg | Sefydliad Sgiliau Electroneg y DU (ukesf.org)

CSA Catapult - Sgiliau

## Cynhadledd y Gwanwyn: Pam y mae Atal Bwlio yn yr Ysgol yn Bwysig?

20/03/2024 | 9:00-15:00 Wyneb yn wyneb ym Mhrifysgol Bangor ac yn Rhithiol

[MANYLION LLAWN A CHOFRESTRU]

**Siaradwyr Gwadd:**



Yr Athro
### CHRISTINA SALMIVALLI
*[Prifysgol Turku, Datblygwr a Gwerthuswr Rhaglen KiVa a Ariennir gan Lywodraeth y Ffindir]*



Yr Athro
### LUCY BOWES
*[Prifysgol Rhydychen, Athro Seicopatholeg, Prif Ymchwilydd Labordy Risg, Gwytnwch, Genynnau ac Amgylchedd Rhydychen [oRANGE]]*

## Cystadleuaeth Ffilm Cymru Wrth-hiliol 2030 - S4C a BAME Ed Wales




**AR GYFER YSGOLION CYNRADD, UWCHRADD, AC ARBENNIG**

Dyma gyfle arbennig i drafod a dysgu am ethnigrwydd yng Nghymru.

Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan [s4c.cymru/ffilmwrthhiliol]

**DYDDIAD CAU: 26/04/2024**

## Gyrfa Cymru

Gyrfa Cymru
Careers Wales

### Banc Syniadau Mentrus

Mae Gyrfa Cymru yn falch o gyhoeddi lansiad adnodd addysgu newydd, y Banc Syniadau Mentrus. Datblygwyd yr adnodd hwn mewn cydweithrediad â modelau rôl entrepreneuraidd o rwydwaith Syniadau Mawr Cymru, ac mae'n cynnwys syniadau i ysbrydoli, cefnogi ac annog addysg entrepreneuriaeth gyda dysgwyr iau. Darganfyddwch fwy.

### Y Criw Mentrus: Annog Menter Dysgu Proffesiynol Ar-lein

Gweler yma amserlen ar gyfer gweithdai ar-lein ar gyfer ymarferwyr cynradd sy'n gysylltiedig â Her Y Criw Mentrus Genedlaethol.